| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | Y Cyngor |
| DYDDIAD | 21 Mehefin, 2012 |
| TEITL | Asesiad ar Anghenion Lletya a Gofal Pobl Hŷn yn Nalgylch Porthmadog. |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2011 ynglŷn â dyfodol Cartref Preswyl Hafod y Gest, Porthmadog |
| AELOD CABINET | Cynghorydd R H Wyn Williams |

## 1.0 Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2011 bu i'r Cyngor ystyried adroddiad ynglŷn â dyfodol cartref preswyl Hafod y Gest, Porthmadog. Penderfynwyd ***"gwrthod yr argymhellion presennol a mynd yn ôl i drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu yn addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned, a dod ag adroddiad llawn yn ôl i'r Cyngor mewn chwe mis".***

1.2 Mae'r adroddiad yma yn adrodd nôl i'r Cyngor ar yr hyn sydd wedi, ac sydd i, ddigwydd mewn ymateb i'r penderfyniad hwnnw.

## 2.0 Gweithredu sydd wedi digwydd

2.1 Wrth edrych yn ôl ar yr hyn ddigwyddodd yn yr ymgynghoriad blaenorol a gymerodd le rhwng Mawrth a Gorffennaf 2011 roedd yn amlwg fod:-

a) gwersi i'w dysgu ynglŷn â threfniadau'r ymgynghoriad ei hun,

b) amrywiaeth barn am anghenion lletya a gofal pobl hŷn yn nalgylch Porthmadog.

Yn benodol:-

a) Gwersi i'w Dysgu:- gwnaed gwaith penodol i gasglu barn trigolion a chyfeillion Hafod y Gest, cynghorwyr a hefyd staff a swyddogion yr adrannau Darparu a Hamdden a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drefniadau'r ymgynghoriad. Penodwyd hwylusydd annibynnol i gynnal y sesiynau gyda budd-ddeiliaid Hafod y Gest a chynghorwyr.

Mae'r adroddiad a dderbyniwyd yn nodi nifer o faterion gan gynnwys:-

- gwendidau yn y trefniadau ymgysylltu, cyfathrebu a gwrando effeithiol
- diffyg adnabod opsiynau eraill.

Wrth nodi hyn roedd gwerthfawrogiad i waith y Rheolwr Ymgysylltu a hefyd i’r gefnogaeth a roddwyd i drigolion a’u teuluoedd gan staff a rheolwyr y Cartref.

Cynigiwyd y canlynol fel gwersi i'w dysgu:-

- cynllunio’r broses o’r cychwyn yn llawn ac yn gynhwysol gan sicrhau cyfle i bawb gymryd rhan
- ymchwilio digonol i anghenion a dyheadau trigolion yr ardal
- adnabod opsiynau clir
- sicrhau trefniadau prosiect penodol

b) Anghenion yr Ardal - y cynnig a wnaed fel rhan o’r ymgynghoriad oedd adeiladu datblygiad newydd o tua 40 tŷ gofal ychwanegol. Roedd hyn yn gyson gyda gweledigaeth strategol y Cyngor a’r penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r Adolygiad Strategol Preswyl a Nyrsio y dylid lleihau’r nifer o wlâu preswyl ‘traddodiadol’, cynyddu nifer gwlâu dementia a chynyddu’r nifer o dai gofal ychwanegol.

Roedd yr ymateb a fynegwyd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol Hafod y Gest yn anghytuno â’r bwriad i leihau’r nifer o wlâu preswyl a mynegwyd barn y dylid darparu uned fechan ‘breswyl’ fel rhan o’r datblygiad tai gofal ychwanegol.

2.2 Wrth ystyried sut i symud hyn yn ei flaen rhoddwyd sylw penodol i’r ddau agwedd yma gan ymdrechu i ddysgu o’r gwersi a adnabuwyd a chynllunio gweithredu yn unol â’r sylwadau a wnaed.

2.3 Mae’n glir fod angen darlun llawer mwy cyflawn o anghenion a dyheadau'r ardal o safbwynt llety a chefnogaeth gofal a chyda hyn mewn golwg awgrymir cynnal y trafodaethau hynny yn yr ardal i sefydlu anghenion a dyheadau trigolion hŷn i'r dyfodol. I’r pwrpas yma ystyrir dalgylch Porthmadog i fod yn ymestyn o Lanystumdwy, Garndolbenmaen, Beddgelert, Llanfrothen i Benrhyndeudraeth.

2.4 Y bwriad felly fyddai cael trafodaeth leol ynglŷn â:-

a) asesu anghenion llety (tai) a gofal gan ystyried ystod opsiynau allasai fod ar gael. Mi fyddai’r rhain yn ymestyn o gynnig cefnogaeth i unigolion fyw yn eu cartrefi i ddewisiadau i symud i lety mwy addas hyd at fod angen ystyried cartref preswyl neu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys tai llai, byngalos pobl hŷn, tai gwarchod, tai gofal ychwanegol a hefyd cartrefi gofal. Mae’r ystod cefnogaeth gofal yn cynnwys cymorth o gwmpas y tŷ, offer ac addasiadau, offer teleofal, galluogi a gofal cartref a gofal dydd. Wrth i amgylchiadau byw newid yna mi fyddai’r gefnogaeth gofal hefyd yn newid yn ddibynnol ar anghenion unigolion.

b) mi fydd canlyniadau'r asesiad cychwynnol yma yn bwydo fewn i ddewisiadau i’w hystyried wrth drafod yn ffurfiol ar ddyfodol Hafod y Gest. Mi fyddai hyn yn llawer mwy penodol i fudd-ddeiliaid y cartref ac i’w gwblhau dros gyfnod llawer byrrach na’r hyn a wnaed yn flaenorol.

Cam cyntaf yn y rhaglen waith fyddai cynnal cyfarfodydd gydag aelodau lleol y dalgylch i dderbyn mewnbwn i'r ddogfen drafod a hefyd cynllunio gweddill y rhaglen waith yn fwy manwl.

## 3.0 Casgliadau

3.1 Mae penderfyniad y Cyngor yn gofyn am drafodaeth bellach yn ardal Porthmadog gan ystyried dyheadau'r gymuned. Mae'r awgrym i gynnal trafodaethau eang i adnabod dyheadau trigolion ynglŷn â'u gofynion llety a gofal yn cynnig dull cynhwysfawr o dderbyn barn leol fydd wedyn yn hysbysu trafodaeth ynglŷn ag anghenion yr ardal i'r dyfodol.

3.2 Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad.